# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3)-17-08 (p2): 12 Mehefin 2008**

## Ymchwiliad i gyfraniad economaidd Addysg Uwch yng Nghymru

### Ymateb gan SkillsActive:

1. SkillsActive yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu a Hamdden Heini, sy'n cynnwys yr is-sectorau chwaraeon a hamdden, iechyd a ffitrwydd, yr awyr agored, gwaith chwarae a gwersylla a charafanio.

2. Mae SkillsActive yn credu bod Cytundebau Sgiliau Sector yn darparu sail ar gyfer rhannu agenda rhwng Cyngor Sgiliau Sector, ei gyflogwyr a'r Rhwydwaith Addysg Uwch yng Nghymru. Yn wir gall Cytundebau Sgiliau Sector fod yn brif lwybr ar gyfer sicrhau bod barn cyflogwyr yn cael ei mynegi'n glir ac mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn cefnogi datblygiad strategol AU yng Nghymru.

3. Gorffennodd SkillsActive ei Gytundebau Sgiliau Sector yng Nghymru ar ddiwedd 2006 ac ers hynny mae wedi cytuno ar gytundeb partneriaeth gyda CCAUC (HEFCW) sydd ynghlwm isod, fel sail ar gyfer perthynas barhaus rhwng y Sector a SAU yng Nghymru. Mae'r gwaith o weithredu'r cytundeb hwn yn mynd rhagddo ac mae yna bartneriaeth gyda sefydliadau unigol yn deillio ohono.

### Sylwadau Cyffredinol:

4**. Sgiliau Galwedigaethol:** Mae Cytundebau Sgiliau Sector yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod gan eu sectorau'r gweithlu medrus a chymwys sydd ei angen arnynt i lwyddo - yn nhermau twf busnesau, cynhyrchedd neu berfformiad gwasanaeth cyhoeddus. Ffocws allweddol ar gyfer y bartneriaeth gydag AU yw sicrhau bod yna gyflenwad o raddedigion sy'n meddu ar y sgiliau priodol hyn.

5. Nid yw trosglwyddo o fyd addysg i fyd gwaith bob amser yn hawdd. Fel Sector byddem yn hybu mwy o gynnwys galwedigaethol o fewn rhaglenni AU, yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y Sector. Gwelir datblygiad Graddau Sylfaen fel ffordd o ddarparu ffocws galwedigaethol ac fel sector byddem yn cefnogi eu datblygiad yng Nghymru. Gellir cyflwyno'r rhain mewn ffordd hyblyg, gan ganiatáu astudio ochr yn ochr â chyflogaeth ac maent yn apelio'n arbennig at y rhai sydd am gael mynediad i AU yn nes ymlaen yn eu gyrfa, gan gefnogi eu datblygiad i swyddi rheoli.

6. Rydym hefyd yn cydnabod na ddylai pob darpariaeth AU fod yn benodol alwedigaethol a dylid nodi mai dim ond 1/3 o raddedigion Cymru sy'n mynd i weithio yn y Sector yn barod. Dylid cynorthwyo pobl i wneud dewis gwybodus wrth ddechrau AU gyda golwg ar pa gyrsiau sydd â ffocws galwedigaethol amlwg - mae'r label Gradd Sylfaen yn ddefnyddiol yn hyn o beth. Mae "Prentisiaethau i Raddedigion" hefyd yn cael eu ffafrio yn ein Sector ni, gan gydnabod bod graddedigion angen cymorth ac amser i ddatblygu yn y diwydiant ar ôl graddio.

7. **Ymchwil a Datblygiad:** mae prif faes arall yn y bartneriaeth gydag AU yn ymwneud â gallu AU i gefnogi'r ymchwil technegol a gwyddonol sydd ei angen ar sectorau. I ni,

mae hyn yn fwy cyfyngedig nag o fewn sectorau eraill megis peirianneg. Fodd bynnag, mae gwyddor a seicoleg chwaraeon ac ymarfer yn sylfaenol i berfformiad uchel mewn chwaraeon ac maent wedi galluogi UWIC i chwarae rôl arweiniol yn y DU o ran paratoi athletwyr elitaidd.

8. Mae ein partneriaeth gydag Addysg Uwch hefyd yn amlwg o fewn ymchwil y Sector. Er enghraifft, yn ddiweddar cwblhawyd ymchwiliad gennym gydag UWIC i'r bylchau o ran sgiliau cyflogadwyedd yn y Sector, a arweiniodd at gyhoeddi cronfa ddata o ddarparwyr hyfforddiant, oedd yn anelu'n benodol at lenwi'r bylchau a nodwyd.

### Cydweithio Gyda Sefydliadau Addysg Uwch Yng Nghymru

SkillsActive yw'r Cyngor Sgiliau Sector (CSS) ar gyfer y sector dysgu a hamdden heini sy'n cynnwys chwaraeon a hamdden, iechyd a ffitrwydd, yr awyr agored, gwaith chwarae a'r diwydiant carafannau. Fel CSS gall SkillsActive siarad gydag awdurdod am anghenion sgiliau'r sector.

output

### Cefndir y Diwydiant (DU)

Cyfrannodd Dysgu a Hamdden Heini £8.6 biliwn i gynnyrch economi'r DU yn 2002 – sef dwywaith twf economi'r DU dros y 5 mlynedd diwethaf

Mae 5 sector SkillsActive yn cyflogi 634,000 o weithwyr gyda thâl, o fewn dros 36,500 o sefydliadau

Gwelwyd twf aruthrol mewn Cyflogaeth dros y pum mlynedd diwethaf - bron bedair gwaith twf diwydiannau'r DU

Mae'r sector yn cynnwys micro-sefydliadau (73%) a busnesau bach a chanolig, gyda llai nag 1% o'r cyflogwyr yn cyflogi dros 250 o weithwyr

Dysgu a Hamdden Heini yw'r sector unigol mwyaf o ran gwirfoddoli, gyda 26% o'r gweithlu'n wirfoddolwyr

## Twf yn y dyfodol

Disgwylir i'r sector barhau i berfformio'n well nag economi'r DU hyd 2014 – gyda chynnyrch o hyd at 1.9 biliwn

Rhagwelir y bydd trosiant staff oddeutu 14%, a bydd hynny, ynghyd â'r twf mewn cyflogaeth, yn golygu y bydd yna o leiaf 1 miliwn o gyfleoedd gwaith (gyda thâl) rhwng 2004 a 2014.

## Cymru

Cyflogir 27,000 o bobl yn y sector yng Nghymru o fewn tua 2,100 o sefydliadau

Mae hyn cyfateb i tua 4.6% o gyfanswm y DU

Mae gan Gymru 8% yn fwy na'r gyfran ragweladwy o gyflogaeth yn y sector o'i chymharu â'r DU gyfan

Mae 64% o gyflogwyr Cymru'n cyflogi llai na 50 o bobl

Proffwydir y bydd y nifer a gyflogir yn cynyddu i tua 30,000 erbyn 2014.

Mae Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y Sector yn £400 miliwn – mae'r sector mwyaf (chwaraeon a hamdden) yn cynhyrchu 50% o'r cyfanswm hwnnw

## Dadansoddiad o anghenion sgiliau (y galw) ar draws Cymru

Nododd bron i 1 o bob 4 sefydliad fod ganddynt le gwag

Roedd 45% o'r sefydliadau oedd â llefydd gwag o'r farn eu bod yn anodd eu llenwi.

Roedd 38% o'r sefydliadau gyda lle gwag anodd ei lenwi'n nodi mai prinder sgiliau yw'r rheswm

Nododd 15% o'r cyflogwyr fod ganddynt fwlch sgiliau yn eu gweithlu presennol

Y sgiliau a nodwyd amlaf fel rhai oedd angen eu gwella oedd gwaith tîm, trin cwsmeriaid, sgiliau technegol ac ymarferol a sgiliau cyfathrebu. Roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o gyflogwyr hefyd yn nodi sgiliau rheoli, TG a'r iaith Gymraeg.

Rheolwyr gweithredu/rheolwyr dyletswyddau/rheolwyr cynorthwyo, gweithwyr chwarae a hyfforddwyr ffitrwydd/hyfforddwyr personol sydd i gyfrif am y gyfran uchaf o fylchau sgiliau.

## Asesiad o'r ddarpariaeth (cyflenwad) addysg uwch ar draws Cymru

Mae data cyrchfannau HESA ar gyfer cyrsiau AU yng Nghymru'n dangos bod 39 o gyrsiau ar gael yn y sector yn 2003/04 gyda 31 yn cynnwys elfen o chwaraeon a hamdden, tri iechyd a ffitrwydd ac 13 awyr agored. Ni nodwyd unrhyw gyrsiau AU yn y sector Gwaith Chwarae na'r sector Carafannau.

Mae tua dwy ran o dair (64 y cant) o'r rhai sy'n gadael sefydliadau yng Nghymru'n aros i weithio yng Nghymru gyda thraean ohonynt (32 y cant) yn gweithio yn Lloegr.

Derbyniwyd dros 1,200 o ddysgwyr ar gyrsiau Chwaraeon a Hamdden AU yn 2003/04, cynnydd o 40% ers 1999. Roedd tua dwy ran o dair (67%) o'r myfyrwyr hynny'n ddynion.

Mae mwy o'r rhai sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Chwaraeon a Hamdden o fewn SAU yng Nghymru'n dod o Loegr (50 y cant) na Chymru (46 y cant)

Mae tua dwy ran o dair (64%) o'r rhai sy'n gadael sefydliadau yng Nghymru'n aros i weithio yng Nghymru

Mae tua thraean y rhai sy'n gadael Addysg Uwch ar ôl dilyn cyrsiau sy'n gysylltiedig â SkillsActive yn mynd i weithio yn y sector.

## Prif Faterion - Cyflogwyr

Mae cyflogwyr yn nodi'n gyson bod yna ormod o raddedigion mewn meysydd megis gwyddor chwaraeon a datblygu chwaraeon, a bod gormod o'r graddedigion AU yn brin o elfennau galwedigaethol hanfodol a 'sgiliau cyflogadwyedd'

Mae cyflogwyr yn chwilio am gyfuniad mwy cytbwys rhwng modiwlau ymarferol ac academaidd

Mae cyflogwyr yn credu weithiau bod gan raddedigion ddisgwyliadau cyflogaeth afrealistig

Gwelwyd cynnydd aruthrol yn y galw am gymwysterau hyfforddi yn y DU dros y pum mlynedd diwethaf

Mae'r galw am gymwysterau eraill megis cyrsiau Datblygu Chwaraeon, Rheolaeth Chwaraeon a Hamdden, Iechyd a Ffitrwydd a chyrsiau Awyr Agored hefyd wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf.

## Atebion Arfaethedig

**Dylai SAU weithio'n agos gyda'r CSSau er mwyn helpu i sicrhau bod y cyflenwad yn cwrdd â'r galw:**

Gall SkillsActive ddarparu gwybodaeth am y farchnad lafur a darogan anghenion sgiliau'r sector. Dylid rhannu'r data hwn gyda sefydliadau addysg uwch ar draws Cymru er mwyn goleuo cynnwys y cwricwla perthnasol. Yn ddiweddar, bu SkillsActive yn gweithio mewn partneriaeth gydag UWIC yng Nghaerdydd i nodi'r sgiliau penodol sy'n sylfaen i'r prinder 'sgiliau cyflogadwyedd' a nodir ym meysydd gwaith tîm, trin cwsmeriaid, cyfathrebu, datrys problemau a sgiliau rheoli, a dylid defnyddio canfyddiadau penodol i oleuo'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm neu gynnwys rhaglenni amrywiol.

**Dylai SAU ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur / y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol / a Fframweithiau'r Sector:**

Fel y corff sy'n gosod safonau ar gyfer y diwydiant, mae SkillsActive yn datblygu, adolygu a chynnal set o safonau galwedigaethol cenedlaethol effeithiol a hygyrch ar gyfer y sector dysgu a hamdden heini, ac mae wedi datblygu fframweithiau ar gyfer cyrsiau gradd sylfaen, prentisiaethau modern a dysgu sy'n seiliedig ar waith, a gellir rhannu hyn oll gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sydd am gwrdd â gofynion galwedigaethol.

**Dylai SAU hybu llwybrau cynnydd realistig o fewn y sector:**

Mae SkillsActive hefyd yn adeiladu ar y Cytundeb Sgiliau Sector trwy ddatblygu Strategaeth Cymwysterau Sector (SCS) mewn ymgynghoriad â phartneriaid ar draws Cymru. Nod cyffredinol y SCS yw sefydlu fframwaith clir o addysg a hyfforddiant sy'n cwrdd ag anghenion y sector dysgu a hamdden heini – i fynd i'r afael â gofynion sgiliau'r sector.

I gloi, mae SkillsActive yn awyddus iawn i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r cysyniad o gyflogadwyedd o fewn y sector dysgu a hamdden heini, ac er mwyn cael effaith bositif ar y sialensiau o ran sgiliau a chynhyrchedd sy'n bodoli yng Nghymru.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Richard Tobbutt, Rheolwr (Cymru),
029 20644 526 neu richard.tobutt@skillsactive.com**